**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 18 Ebrill 2023 am 7:00yh drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Rhys Parry, Ann Lawton, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Phillip Roberts

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Avril Jones, Richard Robinson, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Emyr Jones, Alan Pritchard,

**Aelodau o'r Cyhoedd**: Neb

**Clerc**: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y clerc ac fe gymerwyd nodiadau o'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1133. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

**1134 . Derbyn ymddiheuriadau**

.

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

**1135. Datgan buddiant personol.**

Dim

**1136. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Mawrth 2023**

Darllenodd y Cadeirydd y Cofnodion mis Mawrth 21, 2023

Cynigwyd bod y Cofnodion yn gywir gan Ann, eiliwyd gan Hefin. Pawb yn cytuno

**1137. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi .**

1119 - Heb gael dim ymateb gan Gyngor Gwynedd. Sawl un yn parcio a'r palmant ac yn rhwystro gweledKedd

Adroddwyd fod coeden newydd wedi prynu heddiw ar gyfer Pwll Moelyn yn lle'r un oedd wedi difrodi

Angen paratoi'r placiau ar gyfer hyn ar gyfer gwahodd y teulu canol mis Mai wedi'r Cyfarfod Blynyddol. Meirwen am holi Meirion sydd angen iddi hi wneud hyn i gynorthwyo'r Clerc

**Penderfynwyd:** Derbyn y sylwadau

**1138. Cyfranogiad y Cyhoedd (os yn bresennol)**

Neb yn bresennol

**1139. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**1140. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd**

Derbyn adroddiad ar y cyd gan Berwyn a Beca yn eu habsenoldeb o herwydd cyfarfod arall heno. Meirwen yn atodi'r e-bost
**Adroddiad i'r Cyngor Cymuned ar y cyd - Beca a Berwyn – Mis Ebrill 2023**

**Y Cyngor Sir**
Dim llawer o gyfarfodydd wedi bod oherwydd gwyliau'r Pasg.

**Strategaeth Iaith** – Y cyngor wedi cyhoeddi strategaeth drafft, sydd ar hyn o bryd allan i ymgynghoriad. Mae'r manylion sut i roi sylwadau ar gael ar wefan y Cyngor.

**Cynllun Trwyddedu Statudol Llety Gwyliau** - Y cyngor wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y bwriad i greu cynllun trwyddedu, er mwyn eu rheoli. Mae ymateb y Cyngor i weld yn bapurau'r cabinet ar wefan y cyngor.

**Economi cylchol** - Y cyngor wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn hybu'r economi cylchol, er mwyn ail ddefnyddio a lleihau ar wastraff. Dyma'r math o gynlluniau mae'r cyngor am weld:-

- Ymyraethau ar gyfer agenda Tlodi Bwyd - creu hybiau bwyd; annog ymgyrchoedd ail ddefnyddio bwyd ag ailgylchu dillad ysgol i gefnogi teuluoedd bregus yng Ngwynedd

- Ymyraethau Ailddefnyddio/Ail-greu/Ail-bwrpasu - nifer o brosiectau i ddatblygu cyfleoedd economaidd o greu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y maes technoleg gyda gofodau Ffiws

- Creu Caffis Trwsio yn y Sir.

Parhau i ddatblygu Llyfrgell y Pethau mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor

Er gwybodaeth mi fydd caffi trwsio yn dod i Sefydliad Coffa Llanrug ar Fehefin 16eg.

**Safle Treftadaeth y Byd – Ardal Llechi**

Cyfarfod o'r grwpiau o'r gwahanol ardaloedd wedi bod. Bydd Gweithdy pellach yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf yn y Celtic Royal.

**Yn Lleol**

Wedi trefnu diwrnod i ailgylchu dillad ysgol yn y sefydliad Coffa yn Llanrug. Roedd yn llwyddiannus, gyda nifer dda wedi cymryd mantais o'r cyfle.

Bydd y ddau ohonom yn barod i ateb unrhyw gwestiynau'r mis nesaf, neu os oes angen dros e-bost.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1141. I dderbyn adroddiad o'r Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Y cynllun wedi colli rhai o'r rhestr oherwydd marwolaeth ond 4 o'r newydd wedi ymuno.

Ni chafwyd cyflenwad wythnos y Pasg ond gan fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn nwyddau o'r arian Grant llwyddwyd i fwydo pawb.

Berwyn Beca a Meirion yn cyfarfod Claire o Fareshare bore Mercher

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1142. I dderbyn adroddiad o Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Phillip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent y canlynol

Gwaith adeiladu waliau newydd a thrwsio pyst wrth ymyl mynediad i'r Fynwent wedi ei gwneud.

Paratoadau am Sul y Blodau wedi cynnwys casglu blodau plastig oedd wedi'u gwasgaru gan y tywydd. Casglwyd bag du llawn. Bydd rhaid ystyried rhoi sylw i'r mater o'r deunydd yma yn y Fynwent.

Cafwyd cwyn trwy safle we'r Cyngor am y toriad gwair cyn y Pasg. Bydd ymateb i'r cwyn yn cynnwys cyfeiriad at drefn cwyno ffurfiol y Cyngor.

Bin llawn a sbwriel yn fynwent yr Eglwys : y Cynghorydd Hefin Jones am ymholi am gynrychiolydd o'r eglwys bydd yn medru ymateb i'r broblem.

**Penderfynwyd**: Derbyn a Diolch am yr adroddiad

**1143. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. [https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search](https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search)**

a) **Rhif y Cais:** C23/0239/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dymchwel estyniad unllawr to fflat. Codi estyniad unllawr a deulawr. Demolish existing flat roof single storey extension.
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Daniel Yates Lona Owen

**Asiant:** Mr H Gareth Jones (BDS Gwynedd)
**Cyfeiriad:** Bwlch Cottage Lôn Bwlch, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4ED
**Cyfeirnod Grid:** 254931.99, 362266.5
**Ward:** Cwm y Glo
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C21/0564/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ar gyfer codi 3 uned breswyl ffforddiadwy (dau dy a byngalo) /
**Ymgeisydd:** Morris (Morris Build for Life)
**Asiant:** Mark Davies (Cambrian Planning and Development Ltd)
**Cyfeiriad:** Tir Ger / Land By Glyntwrog Inn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AN
**Cyfeirnod Grid:** 254145.24, 363237.3
**Ward:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu

- Sylwadau'r Cyngor Cymuned 2021 yn parhau ac yn ddilys heno
- Colli llecyn gwyrdd arall yn y gymuned sawl aelod o'r cyhoedd wedi mynegi eu pryder am hyn
- Safle bws
- Gor ddatblygiad o'r darn tir
- Diogelwch ffordd yn y rhan yma o'r pentref

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15 yr hwyr

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: